# *Partneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru*
# *Rhaglen TAR: Bwletin Ymchwil*

**Rhifyn 4: Hydref 2022**

Croeso i fwletin ymchwil y Rhaglen TAR, a chroeso i'r darpar athrawon ac ysgolion partneriaeth newydd sy'n ymuno â'r rhaglen eleni. Mae'r bwletinau hyn yn cynnwys enghreifftiau o ymchwil cyhoeddedig, gyda chrynhoad o'r canfyddiadau allweddol a goblygiadau ar gyfer ymarfer. Defnyddir ystod eang o gyfnodolion a darperir dolenni i bapurau llawn. Bydd y bwletinau hefyd yn cynnwys trosolwg byr o'r ymchwil sy'n cael ei gynnal gan unigolion neu dimau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen TAR ac astudiaethau eraill o ddiddordeb. Gall materion hefyd gynnwys cysylltiadau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer sefydliad/au addysgol /ymchwil.

Os ydych chi a/neu eich lleoliad yn cymryd rhan mewn unrhyw ymchwil byddem yn croesawu'r cyfle i rannu hyn ar draws y Bartneriaeth, neu os ydych yn dymuno gwybod mwy am unrhyw un neu ragor o'r ymchwil a gynhwysir yn y bwletinau hyn cysylltwch ag Alison Glover (alison.glover@open.ac.uk).

## *Yn y rhifyn hwn ..........*

**Athrawon arloesol:** Natur asiantaeth athrawon a brofwyd gan y rhai sy'n gweithio ar faes cwricwlwm y celfyddydau mynegiannol.

**Rhaglen ddarllen ar gyfrifiadur:** Dull ymchwilio ar hap, cyn- ac ôl-brawf, i lywio astudiaeth fwy. Adroddir bod effaith sylweddol ar ddarllen.

**Creu cerddoriaeth yn yr awyr agored:** Canfyddiadau athrawon a chyfweliadau gyda phlant i archwilio beth yw effaith creu cerddoriaeth mewn lleoliadau awyr agored ar ddisgyblion cynradd.

**Ymgysylltu gyda STEM:** Defnyddir cyfalaf gwyddoniaeth fel lens i archwilio barn cyfranogwyr ac athrawon am wyddoniaeth ac addysg o ran dyheadau, cyrhaeddiad a rhwystrau cymdeithasol.

**Gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru:** Bu aelodau o'r Tîm TAR yn gweithio gydag Ymchwil Arad ac eraill i werthuso parodrwydd y sector ar gyfer y diwygiadau.

**Gweithgareddau'r Rhaglen TAR:** Gwybodaeth a chysylltiadau â'r cyhoeddiad sy'n arddangos arferion mentora effeithiol ar draws y bartneriaeth; manylion y gynhadledd ymchwil gyntaf a gynhaliwyd yn haf 2022.

### Athrawon arloesol

*'Mae angen i'r rhai sy'n arwain diwygio'r cwricwlwm ddeall yn llawn a mynd i'r afael â'r gweithrediad a'r chyd-chwarae gydag asiantaeth sydd mewn gwahanol gyd-destunau, yn enwedig ar lefel sefydliadol.'*

Ystyrir asiantaeth athrawon drwy fframwaith o wahanol lefelau: mae'r micro-lefel yn canolbwyntio ar yr unigolion a'u cyfraniadau personol; mae'r macro-lefel yn ystyried gwaith Arloeswyr ar lefel genedlaethol, gan gysylltu ag athrawon o bob cwr o'r wlad a chymryd cyfrifoldeb dros greu'r cwricwlwm; mae'r lefel meso yn cyfeirio at ble mae'r ddwy lefel flaenorol yn dod at ei gilydd, h.y. gwaith yr Arloeswyr o fewn eu sefydliad eu hunain, gan dreialu'r cwricwlwm newydd. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod asiantaeth athrawon yn haws i'w gyflawni ar y lefel micro a macro, nag ar y lefel meso. Awgrymir, felly, fod cyflawni asiantaeth athrawon ar lefel sefydliadol yn fwy cymhleth a heriol nag o fewn y lefelau eraill. Mae angen mwy o ddealltwriaeth a sylw, felly, ynglŷn â sut i gyflawni asiantaeth athrawon mewn gwahanol gylchoedd gwaith, yn enwedig wrth weithio ar lefel sefydliadol.

Kneen, J., Breeze, T., Thayer, E., John, V. a Davies-Barnes, S. (2021) 'Pioneer teachers: How far can individual teachers achieve agency within curriculum development?' *Journal of Educational Change*, doi.org/10.1007/s10833-021-09441-3.

### Rhaglen ddarllen ar gyfrifiadur

*'Roedd gan Headsprout Early Reading effaith arwyddocaol ar sgiliau darllen mewn cymhariaeth ag 'addysg arferol', gyda'r prif fesur canlyniadau yn dangos meintiau effaith mawr'.*

Mae tystiolaeth gynyddol yn dangos y gallai pobl ag anableddau deallusol elwa o gyfarwyddyd darllen sy'n seiliedig ar ffoneg. Mae rhaglen ffoneg ar-lein - Headsprout Early Reading yn darparu'r ffocws ar gyfer yr astudiaeth hon. Cafodd chwech -ar -hugain o ddysgwyr (5-19 oed) gydag ystod o anableddau deallusol ysgafn i gymedrol eu recriwtio o dair ysgol arbennig yng Ngogledd Cymru. Roedd wythdeg pennod ar-lein o tua 20 munud yr un yn cyflwyno cyfarwyddyd i bob dysgwr. Cwblhawyd asesiadau darllen cyn- ac ôl-ymyrraeth. Gall archwilio posibiliadau cyn cynnal darn o ymchwil ar raddfa fwy fod yn allweddol. Nid oedd chwe mis yn gyfnod digon hir i gwblhau'r ymyrraeth. Ymchwiliwyd i dri asesiad gwahanol o ran eu haddasrwydd ar gyfer cyflwyno cais yn y dyfodol o brawf rheoledig, ar hap, ar raddfa lawn.

Roberts-Tyler, E.J., Hughes, J.C. a Hastings, R.P. (2020) 'Evaluating a computer-based reading programme with children with Intellectual Disabilities: feasibility and pilot research', *Journal of Research in Special Educational Needs*, 20(1), pp. 14-26. doi.org/10.1111/1471-3802.12458.

### Creu cerddoriaeth yn yr awyr agored

*'Mae athrawon yn dweud fod profiadau aml-synhwyraidd y disgyblion wedi cynnig gwell profiad creadigol iddynt.'*

Bu diddordeb cynyddol mewn buddiannau posib yr amgylchedd awyr agored a datblygiad plant. Yn yr astudiaeth hon roedd cyfweliadau gyda saith athro a arsylwodd eu dosbarthiadau wrth iddynt greu cerddoriaeth, yn ogystal â chyfweliadau lled-strwythuredig gyda chwe grŵp o blant. Adrodda'r astudiaeth fod y plant wedi ymgolli yn, ac yn canolbwyntio ar, y creu cerddoriaeth. Y themâu allweddol a archwilir yw i). ymddygiad gwell; ii). defnydd o le, iii). sainlun, iv). effaith yr amgylchedd ar greu cerddoriaeth/creadigrwydd, v). yn fwy arbrofol a mynegiannol, vi). gwell ffocws. Adroddwyd bod gwell ymddygiad a ffocws.

Adams, D. a Beauchamp, G. (2021) 'The impact of music making outdoors on primary school aged pupils (aged 7–10 years) in the soundscape of nature from the perspective of their primary school teachers', *Journal of Outdoor and Environmental Education*, 24, pp. 37-53. doi.org/10.1007/s42322-020-00072-5.

### Ymgysylltu STEM

*'Dangosodd cyfweliadau gydag athrawon eu bod yn ceisio atal eu disgyblion rhag profi stereoteipiau sy'n deillio o statws economaidd-gymdeithasol, ond yn cael trafferth goresgyn eu rhagdybiaethau.'*

Cafodd 61 o bobl ifanc eu holi a thri athro eu cyfweld ar ôl cymryd rhan mewn gweithgaredd STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg). Drwy ddefnyddio barn am gyfalaf gwyddoniaeth fel lens, casglwyd barn am wyddoniaeth ac addysg gwyddoniaeth o ran dyheadau, cyrhaeddiad a rhwystrau cymdeithasol. Yn fras, mae'r cyfranogwyr yn frwdfrydig ac uchelgeisiol, ac yn hyderus yn eu galluoedd ym meysydd gwyddoniaeth a sgiliau ehangach. Fodd bynnag, canfuwyd bod rhai agweddau ar uchelgais yn gysylltiedig â statws economaidd-gymdeithasol. Cafodd yr ymyrraeth yr effaith fwyaf gyda'r rhai yn eithafion amddifadedd economaidd-gymdeithasol, yn enwedig o ran atgyfnerthu dyheadau presennol am wyddoniaeth ac addysg, a chynyddu'r meddwl am bosibilrwydd mynychu'r brifysgol.

Bryan, R., Gagen, M.H., Bryan, W.A., Wilson, G.I. and Gagen, E. (2022) 'Reaching out to the hard-to-reach: mixed methods reflections of a pilot Welsh STEM engagement project', *SN Social Sciences*, 2(10), doi.org/10.1007/s43545-021-00311-6.

## Gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru

Cyfrannodd aelodau o'r Tîm TAR at astudiaeth gwmpasu Llywodraeth Cymru i werthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru. Mae adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau 48 o gyfweliadau gydag uwch arweinwyr ac ymarferwyr ysgol yn archwilio pa agweddau ar weithredu'r cwricwlwm sy'n gweithio'n dda ac nid cystal. Roedd yr adroddiad terfynol yn cymhwyso'r ddamcaniaeth, y rhagdybiaethau, y dystiolaeth a'r parodrwydd sy'n sail i'r diwygiadau ac yn datblygu argymhellion ar gyfer monitro a gwerthuso'r dyfodol. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad terfynol yn cynnwys y bwriad i gyhoeddi rhaglen fanwl o ymchwil, gwerthuso a monitro yn ystod tymor yr haf 2023.

## Mentora effeithiol mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon



Mae casgliad o 10 astudiaeth achos yn arddangos rhai dulliau mentora effeithiol ar draws y Bartneriaeth.

Themâu yn cynnwys:

- 'Mae'r dyfodol mor ddisglair, rhaid gwisgo sbectol haul'
- Trosglwyddo'r awenau: dull sy'n fyfyriwr-ganolog
- Gyda mawredd daw cyfrifoldeb
- Dysgu dwyochrog yn ystod y profiad mentor-myfyriwr
- Cofleidio cyfleoedd a heriau
- Cydweithio, amddiffyn a diogelu
- Darganfod y llawenydd
- Datblygu annibyniaeth a hunaniaeth broffesiynol
- Cefnogi ystod o brofiadau ar gyfer athrawon dan hyfforddiant
- Pwysigrwydd empathi ac adeiladu perthynas

## Adroddiad y Gynhadledd Ymchwil 2022




Cynhaliodd y Rhaglen TAR ei chynhadledd ymchwil gyntaf ym mis Mehefin 2022 (Trafodion y Gynhadledd).

Yn dilyn cyflwyniad agoriadol ysbrydoledig gan yr Athro Anrhydeddus Charlotte Williams (OBE), cyflwynodd darpar athrawon Blwyddyn 2 gyflwyniadau ardderchog o'u canfyddiadau eu hymchwil graddfa fach ar ystod o bynciau diddorol ac amserol iawn.

Roedd y cyflwyniadau hyn yn ymdrin â themâu megis: drama mewn gwersi Cymraeg; y Meddylfryd Twf; Athroniaeth i Blant; gwaith cartref cydweithredol; ysgrifennu plant; cyfathrebu a chydweithio yn y dosbarth; Mathemateg; effeithiau Covid-19; a chwarae rôl a llefaredd.

Roedd y drafodaeth banel glo hefyd yn cynnig cipolwg ar ddulliau ymchwil a'r hyn y gallai athrawon myfyrwyr ei ddisgwyl wrth iddyn nhw ddechrau ar eu gyrfaoedd addysgu.




OECD gweminarau ar gael yn edrych ar yr hyn sy'n digwydd ym myd addysg heddiw - a sut allai addysg yfory fod yn edrych.




Blog hefyd yn edrych ar safbwyntiau byd-eang ar addysg a sgiliau.

Gellir gweld rhifynnau cynharach o'r Bwletinau Ymchwil yma yn y teils Dysgu Proffesiynol ac Ymchwil ar SharePoint.